# PWYLLGOR CYNLLUNIO

# DYDD IAU, 2 MAWRTH 2023

**PRESENNOL** Y Cynghorydd W.T. Evans (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | J.M. Charles | P. Cooper | A.C. Jones |
| M.J.A. Lewis | B.D.J. Phillips | D.E. Williams | |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| T. Davies | M. Donoghue | N. Evans | J.K. Howell |
| J.P. Jenkins | D. Owen | E. Skinner | R. Sparks |
| G.B. Thomas | M. Thomas | | |

**Cynghorwyr hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**
T.A.J. Davies, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch Cais Cynllunio rhif PL/04946
T.M. Higgins, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch Cais Cynllunio rhif PL/05071

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth)
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio]
A. Davies, Swyddog Datblygu
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell - 10.00 yb - 2.00 yp**

**(NODER:** Am 10.45am torrodd y Pwyllgor am getyn i gael cyngor cyfreithiol.
Am 12:55pm tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y Cyfarfod – ac, oherwydd bod y cyfarfod eisoes wedi bod yn mynd rhagddo ers bron tair awr, penderfynwyd gohirio'r rheolau sefydlog er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau'r gwaith a oedd yn weddill ar yr agenda. Cafodd y Pwyllgor 15 munud o egwyl, cyn ailgynnull am 13.10pm.)

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd J. D. James.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## 3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**3.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **PL/05005** | **Byngalo ar wahân a Garej ar dir sy'n rhan o Gwelfor, Heol Llanelli, Trimsaran, Cydweli, SA17 4AR** |
| **PL/05016** | **Gwaith allanol gan gynnwys addasu ac agoriadau ffenestri a drysau newydd, teras to ac iard ganolog i hwyluso Hwb Caerfyrddin yn Uned A, Rhodfa Santes Catrin, Caerfyrddin, SA31 1GA** |
| **PL/05071** | **Estyniad i'r llawr cyntaf ym Mhant y Dŵr Fach, Heol Tŷ Llwyd, Llanedi, Abertawe, SA4 0FJ**<br><br>Cafwyd sylw gan aelod lleol a wrthwynebai'r cais ac a ailadroddodd y pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd, gan gynnwys pryderon mewn perthynas â'r canlynol:-<br>• problemau posibl o ran cael mynediad,<br>• diffyg cyfleusterau parcio,<br>• cynnydd yn y lefelau sŵn,<br>• system garthffosiaeth heb ei chysylltu â'r brif system, a<br>• eiddo cyfagos yn colli preifatrwydd.<br><br>Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd wrth i'r adroddiad gael ei ystyried. |
| **PL/05085** | **Caniatâd Cynllunio Amlinellol ar gyfer Eiddo Preswyl 3/4 Ystafell Wely ar Dir Cyfagos i 21 Rhodfa Parc Howard, Llanelli, SA15 3LQ**<br><br>Darllenodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu e-bost gan aelod lleol a wrthwynebai'r cais, ac a ailbwysleisiai'r pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd. Roedd y pryderon mewn perthynas â'r canlynol:-<br>• Diffyg lle parcio a phryderon diogelwch ffyrdd ac<br>• Eiddo cyfagos yn colli preifatrwydd. |

| | |
|---|---|
| | Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd wrth i'r adroddiad gael ei ystyried. |
| **PL/05112** | **Adeiladu tair preswylfa ar wahân a gwaith cysylltiedig ar Dir oddi ar Clos Gwyn, Heol y Neuadd, Y Tymbl, Llanelli, SA14 6AJ** |

**3.2 PENDERFYNWYD caniatáu y cais cynllunio canlynol yn groes i argymhelliad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd i wrthod.**

| | |
|---|---|
| **PL/04946** | **Bwriad i adfer preswylfa a adawyd gan gynnwys troi adeilad allanol cyfagos yn rhan o'r breswylfa a'r holl waith cysylltiedig i gynnwys estyniad cymedrol ar yr ochr i gysylltu'r ddau adeilad ym Mlaenaufforest, Ffarmers, Llanwrda, SA19 8QH**<br><br>Cafwyd sylw gan yr aelod lleol yn cefnogi'r cais ac yn ailbwysleisio'r pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd gan gynnwys:-<br>• Roedd y breswylfa arfaethedig yn cydymffurfio â Pholisi H8.<br>• Roedd yr arolwg strwythurol yn cefnogi bod y strwythur yn gadarn yn ffisegol.<br>• Roedd y datblygiad ar gyfer teulu lleol a oedd yn cyfrannu i'r gymuned leol.<br><br>Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r pwyntiau a godwyd.<br><br>Bu i'r Pwyllgor ystyried:<br>a) Bod y datblygiad yn adfer yr hen breswylfa ac yn unol â Pholisi H8 y CDLl.<br>b) Bod y strwythur presennol yn gadarn yn ffisegol a dim ond gwaith adfer oedd ei angen.<br><br>**3.2.2 PENDERFYNWYD caniatáu'r cais yn groes i argymhelliad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd i wrthod.**<br>**3.2.3 Bod y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor ynghylch yr amodau priodol i'w gosod er mwyn cynnwys cyfraniadau Tai Fforddiadwy.** |

**4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR:-**

**4.1. 2AIL CHWEFROR, 2023**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2023 yn gywir.**

**4.2. 16EG CHWEFROR, 2023**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2023 yn gywir**.

________________________ ________________________

**CHAIR** **DATE**

[*SYLWER: Mae'r cofnodion hyn yn adlewyrchu trefn y materion ar Agenda'r cyfarfod, a all fod yn wahanol i'r hyn a geir mewn unrhyw weddarllediad oherwydd byddai'r Pwyllgor wedi ymdrin yn gyntaf â cheisiadau lle roedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad yn eu cylch.]*